

Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Mawrth 2024

1. Cyflwyniad

1. Ar 13 Gorffennaf 2022, bu Sam Rowlands AS yn llwyddiannus yn y bleidlais¹ a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87 y Senedd,² sef yr hawl i geisio caniatâd i gyflwyno Bil Aelod. Cafodd ganiatâd i fwrw ymlaen â'r Bil ar 26 Hydref 2022.³
2. Cyflwynwyd Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)⁴ ("y Bil") a'r Memorandwm Esboniadol⁵ ("y Memorandwm") – gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ("yr Asesiad Effaith") – gan Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, ar 24 Tachwedd 2023.
3. Ar 29 Tachwedd 2023, gwnaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn.⁶
4. Clywodd y Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 7 Chwefror 2024,⁷ gan y canlynol:
 - Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ("y Gweinidog")
 - Emyr Harries, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg Busnes a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru
 - Lloyd Hopkin, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru
5. Ar 22 Chwefror 2024,⁸ clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:
 - Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol
 - Dr Dave Harvey, Aelod o Staff Cymorth y Senedd
 - Christian Tipples, Ymchwiler y Senedd
 - Michael Dauncey, Ymchwiler y Senedd

¹ [Cyfarfod Llawn, 13 Gorffennaf 2022](#)

² [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru](#)

³ [Cyfarfod Llawn, 26 Hydref 2022](#)

⁴ [Bil Addysg Awyr Agored Breswyl \(Cymru\)](#)

⁵ [Memorandwm Esboniadol](#)

⁶ [Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 29 Tachwedd 2023](#)

⁷ [Y Pwyllgor Cyllid, 7 Chwefror 2024](#)

⁸ [Y Pwyllgor Cyllid, 22 Chwefror 2024](#)

6. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar oblygiadau'r Bil o ran polisi.⁹

7. Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â'r materion sy'n dod ei gylch gorchwyl.¹⁰

⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Trosolwg o'r Bil

8. Yn ôl y Bil:

*"Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, yn rhad ac am ddim fel rhan o gwricwlwm, i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir."*¹¹

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn defnyddio diffiniad o ysgol a gynhelir fel "ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru ..."¹²

10. Yn ôl y Memorandwm:

*"Bydd y Bil yn ceisio datblygu dull cydgysylltiedig sydd wedi'i ariannu i roi cyfle i bob plentyn mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gael profiad addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, anabledau, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), cefndir diwylliannol neu leoliad daearyddol."*¹³

11. Mae'n ychwanegu fel a ganlyn:

*"Bydd hyn yn newid profiad addysg awyr agored breswyl o fod yn weithgaredd cyfoethogi i fod yn elfen o hawl yn y Cwricwlwm i Gymru ..."*¹⁴

12. At hynny, mae'r Bil yn sefydlu rhwymedigaeth statudol i awdurdodau lleol gael cyllid gan Weinidogion Cymru i'w galluogi i ddarparu addysg awyr agored breswyl.¹⁵

Darparu a chyllido addysg awyr agored breswyl

13. Mae adran 1 o'r Bil yn darparu ar gyfer darpariaeth addysg awyr agored breswyl drwy ddiwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.¹⁶ Mae'r adran hon yn pennu bod yn rhaid i gwrs addysg awyr agored breswyl gynnwys o leiaf

¹¹ Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

¹² Memorandwm Esboniadol, tudalen 5

¹³ Memorandwm Esboniadol, tudalen 5

¹⁴ Memorandwm Esboniadol, tudalen 5

¹⁵ Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

¹⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalen 2

bedair noson a phum niwrnod yn aros mewn llety preswyl ac y caiff ddigwydd ar un ymweliad neu ei ymestyn dros fwy nag un ymweliad.¹⁷

14. Yn ôl y Memorandwm:

“Bydd angen olrhain disgyblion i weld a ydynt wedi cael profiad addysg awyr agored breswyl, y tybir y bydd awdurdodau lleol yn ei ymgorffori yn yr wybodaeth sydd ganddynt am ddisgyblion.”¹⁸

15. Mae adran 2 o'r Bil yn darparu ar gyfer ariannu addysg awyr agored breswyl drwy ddiwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.¹⁹

16. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i “dalw swm i awdurdod lleol sy'n ddigonol i alluogi'r swyddogaethau ... mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, i gael eu cyflawni”.²⁰

17. Yn ôl y Memorandwm:

“Un ystyriaeth drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil fu sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad oes rhaid i unrhyw gostau ychwanegol o'r hawl i addysg awyr agored breswyl, yn rhad ac am ddim i ddisgyblion, gael eu talu o gyllidebau presennol awdurdodau lleol neu ysgolion.”²¹

18. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar feysydd penodol y mae'n rhaid eu cynnwys neu y gellir eu cynnwys.²²

19. Wrth wneud sylwadau ar ddiben y Bil, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“I think outdoor learning is a very, very good thing; I don't think what this Bill seeks to achieve in terms of providing a residential course of a specified number of days is the best way of achieving that outcome.”²³

¹⁷ Memorandwm Esboniadol, tudalen 39

¹⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 46

¹⁹ Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), tudalen 4

²⁰ Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), tudalen 4

²¹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 51

²² Memorandwm Esboniadol, tudalen 48

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 16

20. Wrth wneud sylwadau ar Adrannau 1 a 2 o'r Bil, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

*"I think the net effect, if you like, of the two provisions, though, is certainly that this one aspect of the curriculum—and I would say it's a very narrow aspect of a broad curriculum—is given a level of funding, precedence and preference over all other aspects of the curriculum because of this specific funding duty, and there is no precedent for that in the curriculum legislation otherwise."*²⁴

21. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod cyllid Llywodraeth Cymru o dan bwysau aruthrol,²⁵ gan ychwanegu:

*"... expecting a legislative statutory duty to be funded in the current climate is not the most pressing call on school budgets ..."*²⁶

22. Cydnabu'r Aelod sy'n Gyfrifol fod cynnwys darpariaeth gyllido ar wyneb y Bil yn anarferol,²⁷ ond eglurodd mai diben hynny oedd sicrhau nad oedd yn cael ei weld trwy lens addysg yn unig, ac aeth ymlaen i ddweud:

*"... the education Minister... seems to think that this Bill is purely to be funded from an education pot, where there's no ask for that at all; it was never the intention."*²⁸

23. Ychwanegodd:

*"... there's nothing stopping, at all, Welsh Government, across its full breadth of departments, coming together to see how this can be supported and properly funded. This is also intended to ensure that it's new money coming into this, rather than taking money away from existing school budgets, in particular, because I know, in the consultation, that was a nervousness of some schools ..."*²⁹

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 10

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 50

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 50

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 21

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 21

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 21

Diffinio 'addysg awyr agored breswyl'

24. Nid yw 'addysg awyr agored breswyl' wedi'i ddiffinio ar wyneb y Bil, ond mae disgrifiad wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol.³⁰ Mae'n dweud:

"Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cwmpasu ystod o weithgareddau sy'n digwydd mewn lleoliad preswyl, sy'n cynnwys cyfranogwyr sy'n byw gyda'i gilydd mewn cymuned dros dro oddi cartref. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys bod yn yr awyr agored fel rhan ganolog o'r profiad, gallant fod ag elfen heriol, anturus sy'n aml yn cynnwys rhywfaint o weithgarwch corfforol, bob amser yn parchu'r amgylchedd naturiol, ac yn ceisio defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel cyfrwng i drawsnewid y profiad yn wybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad."³¹

25. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a allai peidio â chynnwys diffiniad o addysg awyr agored breswyl fod â goblygiadau o ran asesu costau'r Bil, dywedodd:

"... I think is highly problematic from a policy point of view, but it's also problematic from a funding point of view, because it's then difficult properly to quantify exactly what is meant."³²

26. Wrth egluro'r rhesymau dros beidio â chynnwys diffiniad o addysg awyr agored breswyl yn ar wyneb y Bil, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol fod dealltwriaeth gydnabyddedig yn bodoli'n barod o ran yr hyn yw addysg awyr agored breswyl.³³ Aeth ymlaen i ddweud:

"... there needs to be an element of flexibility for teachers, and headteachers in particular, to know what type of setting and what type of experience is going to best suit the children that they have in front of them. And then, if a definition was put on the face of the Bill, if there was to be a slight change to that, you can imagine the legislative process that would have to take place to make that change. So, with it being in the code, with it

³⁰ Memorandwm Esboniadol, tudalen 10.

³¹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 10.

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 18

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 24

*being within guidance, I think it's a much better place for that definition to be.*³⁴

Barn y Pwyllgor

27. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu'r Bil hwn, y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dystiolaeth ohono. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o fodlon ar y costau a ddarparwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a oedd yn gadarn ac yn barod i graffu.

28. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod nod y Bil – sef sicrhau bod profiad addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu am ddim i bob disgybl mewn ysgol a gynhelir, waeth beth fo'i amgylchiadau – yn un canmoladwy. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyllideb Llywodraeth Cymru o dan bwysau sylweddol ac yn nodi barn y Gweinidog nad ariannu addysg awyr agored breswyl yw'r galwad mwyaf dybryd ar gyllidebau ysgolion.

29. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach y gallai'r Bil, yn ymarferol, roi blaenoriaeth ariannu benodol i un agwedd ar y cwricwlwm dros y llall. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod barn yr Aelod sy'n Gyfrifol i'r perwyl y bwriedir i'r darpariaethau ariannu yn y Bil fod yn hyblyg – ac nad oes angen i gyllid ddod o gyllidebau ysgolion yn unig – rydym unwaith eto'n nodi'r pwysau cyffredinol sy'n cael ei brofi ar hyn o bryd ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru.³⁵

30. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, er nad yw darparu diffiniad ar wyneb y Bil yn rhoi elfen o hyblygrwydd, y gallai hefyd effeithio ar bennu costau'r Bil yn fanwl gywir.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru yn ei brofi ar hyn o bryd, a hefyd yn nodi'r lefel sylweddol o gyllid sy'n ofynnol ar gyfer y Bil hwn.

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 25

³⁵ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25. Chwefror 2024, paragraff 72

Casgliad 3. Gwnaeth lefel y manylion a ddarparwyd ar yr amcangyfrifon cost a gynhwyswyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol argraff ar y Pwyllgor, ac mae o'r farn bod y dull hwn yn enghraifft dda i Lywodraeth Cymru ac eraill ei dilyn o ran lefel y manylion y dylid eu cynnwys mewn perthynas â chostau deddfwriaeth.

3. Crynodeb o gostau'r Bil

Costau cyffredinol

31. Mae'r Asesiad Effaith yn ystyried dau opsiwn:³⁶

- Gwneud dim a pharhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol; a hefyd
- cyflwyno Bil.

32. Mae costau a buddion y Bil wedi'u hasesu dros gyfnod rhoi ar waith o bum mlynedd³⁷ a darperir costau fel ystod, gyda ffigur 'isel' ac 'uchel' wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith.

33. Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol wrth y Pwyllgor fod darparwyr wedi cael eu harolygu wrth bennu'r costau, a bod 51 o ymatebion wedi dod i law; a defnyddiwyd data presennol Llywodraeth Cymru a setiau data EVOVE. Ychwanegodd ei fod yn gyfforddus iawn gyda'r ystod³⁸ mewn perthynas â chostau fel y'u cyflwynir yn yr Asesiad Effaith.

34. Mae cyfanswm cost y Bil rhwng £74.3 miliwn a £95.9 miliwn. Nid yw cyfanswm y buddion wedi'u mesur.³⁹ Mae'r holl gostau meintiol o fewn yr Asesiad Effaith yn gostau parhaus.⁴⁰

35. Olrhain cyfranogiad disgyblion mewn addysg awyr agored breswyl yw'r unig faes a nodwyd ar gyfer costau trosiannol.⁴¹ Er nad yw'r costau hyn wedi'u hamcangyfrif, mae'r Asesiad Effaith yn rhagdybio bod y costau hyn yn ddibwys.⁴²

36. Cyflwynir costau ar draws tri chategori:

- Mynychu canolfannau gweithgareddau awyr agored
- Cludiant
- Athrawon cyflenwi

³⁶ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 69](#)

³⁷ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 69](#)

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 57

³⁹ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 71](#)

⁴⁰ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 71](#)

⁴¹ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 77](#)

⁴² [Memorandwm Esboniadol, tudalen 96](#)

37. Yn ei phapur tystiolaeth, dywed Llywodraeth Cymru fod costau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol "yn cyd-fynd, fwy neu lai, â'r amcangyfrifon a gyfrifwyd yn flaenorol ar gyfer y Bil gan swyddogion".⁴³ Fodd bynnag, mae'n cwestiynu a yw'r "costau hyn yn annhebygol o leihau o flwyddyn i flwyddyn dros y cyfnod o bum mlynedd ... o ystyried y gyfradd chwyddiant gyfredol".⁴⁴ Ailbwysleisiodd y Gweinidog hyn yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, gan ddweud:

*"I don't think we could be confident that those costs are likely to reduce over the coming years, which I think is an assumption in the RIA, because of costs of living generally and the current rate of inflation. So, I don't think that is a safe assumption, but from a top-line point of view, they're broadly in line. I do think these costs are completely unaffordable in the current climate, to be clear, but I do think that the way they've been described is fair."*⁴⁵

38. Wrth ymateb i sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas ag effaith chwyddiant ar gostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol:

*"... we've followed the Treasury Green Book guidance on this, which does not expect an inflationary consideration within the calculation."*⁴⁶

39. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud y byddai'n "risg" ymrwymo i ragolygon costau heb unrhyw gyllidebau dangosol ar ôl mis Mawrth 2025.⁴⁷ Pan ofynnwyd gan y Pwyllgor pam fod hwn yn bryder penodol gyda'r Bil hwn, ac nid biliau eraill, gwnaeth y Gweinidog ddweud:

*"... when you've got the mix of the funding climate on the one hand and a new, novel and unique, really, level of obligation to fund one part of the curriculum over another, I think the net effect of that is that you'd need to have more certainty than we've got."*⁴⁸

40. Aeth yn ei flaen i ddweud:

⁴³ Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 12

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 12

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 30

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 69

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 12

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 67

*"... this Bill creates an obligation for Ministers to fund residential outdoor provision in a very specific way, but doesn't, for example, provide an obligation on Ministers to fund science teaching or maths teaching."*⁴⁹

41. Mewn ymateb i sylwadau'r Gweinidog, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol:

*"I find it quite a strange point, I suppose, because that's suggesting that Welsh Government, perhaps, don't do any indicative thinking beyond 2025; I certainly hope that they do do that."*⁵⁰

42. Eglurodd yr Aelod sy'n Gyfrifol mai'r rheswm dros leihau costau dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd oedd bod nifer y disgyblion yn gostwng dros yr amser hwnnw.⁵¹ Mewn perthynas â chost gyffredinol y Bil, dywedodd:

*"... it's a matter of priorities. Government can afford whatever it chooses to afford. It does though mean that there are pressures elsewhere. I'm not denying that at all ... So, I absolutely accept that this not a cheap Bill. I'm not pretending it is. I haven't attempted to suggest that this will, within two years, pay for itself or anything ridiculous like that. I think it's an investment, but it's a worthwhile investment."*⁵²

43. Fel y crybwyllwyd ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn, mae'r Bil yn sefydlu rhwymedigaeth statudol i awdurdodau lleol gael eu hariannu ar gyfer addysg awyr agored breswyl gan Weinidogion Cymru. Pan holwyd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y mecanwaith i'w ddefnyddio ar gyfer ariannu'r Bil, dywedodd:

"So, I haven't outlined that on the face of the Bill. I would expect that, if I was doing this, I wouldn't want it on a claims basis because I think that, administratively, for local authorities and schools in particular, that would become fairly burdensome to say the least. I would expect there to be a grant process. I guess the calculation would be the average number of learners per year multiplied by the estimated cost per learner. So, I think that will be included in the block grant ... there is the unhypothecated section of the funding, but also there's what I

⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 69

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 65

⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 69

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 30

think is a couple of billion pounds these days in the specific grants section of the funding to local authorities, and I suspect that that will be the best place for it.”⁵³

44. At hynny, gofynnwyd i'r Aelod sy'n Gyfrifol a allai'r Bil, o bosibl, gynyddu'r galw am ganolfannau gweithgaredd, a allai wedyn effeithio ar gost y Bil. Mewn ymateb, dywedodd fod hynny'n rhywbeth a ystyriwyd, gan ychwanegu:

“... there is capacity within the sector at the moment, and they've recognised that. They recognise that there are things that the sector could do differently to increase capacity as well. So, I don't see that being a major financial implication within this ... with that increase in demand, increased competition, we could see a slight reduction in this as well, because there would be more certainty for the centres as to their levels of revenue in the future.”⁵⁴

Costau eraill i rieni a gofalwyr

45. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil “yn darparu bod bwyd a llety yn cael ei gynnwys yn y costau sydd am ddim i ddisgyblion ar gyfer cyrsiau addysg awyr agored breswyl”.⁵⁵ Nid yw'r Aseiad o Effaith yn cynnwys cost dillad ychwanegol, esgidiau ychwanegol, ac ati, y gallai fod eu hangen ar ddisgyblion er mwyn cael addysg awyr agored breswyl.⁵⁶

46. Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, na all y Bil ddileu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â disgyblion yn cael profiad addysg awyr agored breswyl.⁵⁷ At hynny, cyfeiriodd at y posibilrwydd o ddefnyddio'r Grant Hanfodion Ysgolion, ond cydnabu efallai nad yw'r Grant yn ddigon mawr ar hyn o bryd.⁵⁸

47. Yn ôl y Gweinidog, mae'n anodd gwybod a fyddai'r maes hwn heb ei gostio yn arwyddocaol.⁵⁹ Nododd y Gweinidog y gallai'r Grant Hanfodion Ysgolion gael ei

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 49

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 62

⁵⁵ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 46](#)

⁵⁶ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 81](#)

⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 1 Chwefror 2024, paragraff 108

⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 1 Chwefror 2024, paragraff 109

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 27

ddefnyddio gan ddisgyblion difreintiedig i dalu rhai o gostau ychwanegol addysg awyr agored breswyl.⁶⁰ Fodd bynnag ychwanegodd:

“... I don't think you can say with any certainty that that will cover all the costs that young people would have to bear by taking part in this ...”⁶¹

48. Cododd yr Aelod sy'n Gyfrifol dri phrif bwynt o ran y rhwystrau ariannol i addysg awyr agored breswyl, gan gynnwys y costau ychwanegol ar gyfer dillad ac offer. Dywedodd:

“... the first cost is the cost of the trip itself, so let's just come back to that this Bill would seek to remove that, and that's by far and most the largest cost, and the one that causes the most anxiety for young people, and their parents as well.”⁶²

49. Ychwanegodd, wedyn:

“... the second point on this is to say that the centres themselves do provide the equipment that is required for these experiences. Nawr, weithiau gall hynny fod ychydig yn fwy arbenigol—felly, cotiau glaw trwm neu drowsus sy'n dal dŵr, beth bynnag fo hynny—mae'r rheini'n cael eu darparu.”⁶³

50. Wrth wneud sylwadau ar y Grant Hanfodion Ysgolion, aeth ymlaen i ddweud:

“That school essentials grant is there to make sure that those children have that equipment that they may need for that experience. So, if that grant needs to be bolstered—the Minister has said that it has been increased in recent times, which is a positive thing—if it needs to be bolstered further, I think that's an issue for the Minister to explore.”⁶⁴

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 28

⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 28

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 40

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 41

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 42

Arbedion a buddion

51. Er nad oes unrhyw arbedion na buddion ariannol wedi'u mesur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'n cynnwys tystiolaeth sy'n gysylltiedig â gwerth cymdeithasol ac economaidd addysg awyr agored.⁶⁵

52. Mae'r Asesiad Effaith yn darparu rhywfaint o wybodaeth ar feintiol'r hyn y gallai hyn ei olygu, gan gyfeirio – ymhlith eraill – at dystiolaeth gan y *Council for Learning Outside the Classroom* (neu'r LOfC).⁶⁶ O fewn y dystiolaeth honno, mae astudiaeth a gynhaliwyd gan Social Value Business ac a gomisiynwyd gan Natural England.⁶⁷ Wrth gyfeirio at yr astudiaeth hon, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol:

“... there's a study by Social Value Business that reported that learning outside the classroom in a natural environment has an SROI—so, a social return on investment—of £4.32 for every £1 spent.”⁶⁸

53. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw'r ffigurau'n berthnasol i ddigwyddiadau unigol fel cwrs addysg awyr agored breswyl.⁶⁹ Wrth gyfeirio at yr astudiaeth gan Social Value Business yn y Memorandwm Esboniadol, dywedodd y Gweinidog:

“So, it talks about a study by Social Value Business on the social and economic benefits of learning outside the classroom, and I think that is good evidence, but that review and report does not, in fact, include residential outdoor learning; it's a review of outdoor learning more broadly than that, but I think it's good evidence of the benefits of that.”⁷⁰

Barn y Pwyllgor

54. Mae'n galonogol i'r Pwyllgor fod costau amcangyfrifedig y Bil yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyd-fynd, i raddau helaeth, ag amcangyfrifon a wnaed yn flaenorol gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog fel rhai teg. Mae hwn yn Fil â ffocws ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu, serch hynny, fod y Pwyllgor yn falch o'r dull a ddefnyddiwyd yn yr

⁶⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalen 96

⁶⁶ Nodyn tystiolaeth y *Council for Learning Outside the Classroom*, *Learning Outside the Classroom: in natural environments*, 2022

⁶⁷ Gwefan Natural England

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 75

⁶⁹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 72

⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 77

Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a'r ffordd y'i cyflwynwyd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu amrywiaeth o gostau, yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu a wnaed i sefydlu'r ystod hon.

55. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau gan y Gweinidog mewn perthynas â'r ddarpariaeth ariannu yn y Bil a ddisgrifiodd fel rhai cwbl anfforddiadwy yn yr hinsawdd sydd ohoni. At hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi barn yr Aelod sy'n Gyfrifol, a oedd yn cydnabod nad oedd y ddarpariaeth gyllido dros y cyfnod gweithredu o bum mlynedd yn ddibwys, ond a oedd yn ystyried y Bil yn fuddsoddiad gwerth chweil. Er nad ydynt wedi'u meintioli – ac o bosibl yn ymwneud ag addysg awyr agored yn fwy cyffredinol – mae'r Pwyllgor yn cydnabod y buddion a ddisgrifiwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol, a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.⁷¹

56. Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon y Gweinidog na fydd cost y Bil – fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – o bosibl yn lleihau dros y cyfnod arfarnu o bum mlynedd, oherwydd y gyfradd chwyddiant bresennol. Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol wrth y Pwyllgor nad yw canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn ei gwneud yn ofynnol dwyn chwyddiant i ystyriaeth wrth amcangyfrif costau Bil. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion yn flaenorol ar effaith chwyddiant ar gostau deddfwriaeth, lle'r oedd hynny'n bryder penodol. Er enghraifft, wrth ystyried Goblygiadau Ariannol Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru),⁷² yn ystod cyfnod pan oedd chwyddiant ar ei uchaf ers 40 mlynedd. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Filiau ddarparu costau cyffredinol gydag effaith chwyddiant wedi'i dileu, fodd bynnag, mae'n croesawu unrhyw ddadansoddiad dyfnach o ffactorau a allai ddylanwadu ar y costau. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth am effaith chwyddiant, lle mae'n bryder penodol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r dull a fabwysiadwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil hwn, a'i fod yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.

57. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau gan y Gweinidog mai risg yw ymrwymo i ragolygon costau heb unrhyw gyllidebau dangosol y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Wrth roi rhesymau am hyn, cyfeiriodd y Gweinidog at yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, a'r dull newydd o ariannu un agwedd ar y cwricwlwm. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw cost y Bil yn ansylweddol, gallai'r honiad ei bod yn risg ymrwymo i ragolygon costau heb unrhyw gyllidebau dangosol y tu hwnt i fis Mawrth 2025 gael ei gymhwyso yn yr un modd i Filiau Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r cyllid ar gyfer pob Bil gael ei ystyried ar sail gyfartal, a

⁷¹ [Gwefan Natural England](#)

⁷² [Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Goblygiadau Ariannol y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#)

byddai wedi bod yn rhyfedd pe bai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil hwn wedi gwyro oddi wrth y dull hwn.

58. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn yr Aelod sy'n Gyfrifol bod capasiti ar hyn o bryd yn y sector sy'n ymwneud ag addysg awyr agored breswyl, a bod cydnabyddiaeth o fewn y sector y gellir cynyddu'r capasiti hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen gwneud rhagor o waith i ddeall lefel y capasiti yn y sector, gan fod ganddo bryderon y gallai unrhyw gynnydd yn y galw am ganolfannau gweithgaredd, trafnidiaeth, a chyflenwi athrawon, o bosibl arwain at gynnydd mewn costau ar gyfer y meysydd hynny, os caiff y Bil ei basio.

59. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach y gallai fod costau ychwanegol yn deillio o'r Bil – megis ar gyfer dillad ac esgidiau y gallai fod angen ar ddisgyblion er mwyn mynd i ganolfan gweithgareddau awyr agored – ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. At hynny, rydym yn nodi y gallai'r rhain fod yn rhwystr i weithrediad llwyddiannus y Bil, pe bai'r costau hyn yn atal disgyblion rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, a gofynnwn i fanylion o'r fath gael eu harchwilio a'u darparu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

60. Byddai'r Pwyllgor wedi croesawu rhagor o wybodaeth am unrhyw arbedion a manteision sy'n ymwneud yn benodol ag addysg awyr agored breswyl. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau yn ogystal â buddion, i'w alluogi i gynnal gwaith craffu llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys tystiolaeth a oedd yn dangos gwerth cymdeithasol ac economaidd addysg awyr agored, hoffai'r Pwyllgor weld dadansoddiad pellach yn cael ei wneud o'r gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn.

Casgliad 4. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cyfnod arfarnu pum mlynedd ar gyfer y Bil hwn yn briodol, a'i fod yn unol â'r amserlenni a gymhwyswyd gan Lywodraeth Cymru wrth asesu effaith y Biliau y mae'n eu cyflwyno. Disgwylwn i bob Bil gael ei drin – ac i'r gwaith craffu arno fod – ar sail gyfartal, ac i'r un safon.

Argymhelliad 1. Er bod y Pwyllgor yn fodlon â'r dull a fabwysiadwyd i ddileu chwyddiant wrth gostio'r Bil, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal dadansoddiad pellach o'i effaith bosibl, o ystyried lefel gyfredol chwyddiant a chost sylweddol y Bil.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith ar y cynnydd posibl yn y galw am arosiadau preswyl mewn canolfannau gweithgareddau awyr agored o ganlyniad i basio'r Bil.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif manteision y Bil, ac i'r wybodaeth honno gael ei chynnwys mewn Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn diweddarau'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, i gynnwys dadansoddiad a chostau eitemau heblaw offer arbenigol y gallai fod eu hangen ar ddisgyblion pan fyddant yn cael profiad addysg awyr agored preswyl, megis dillad ac esgidiau addas.

4. Costau penodol a nodir yn y Bil

Costau canolfannau gweithgareddau awyr agored

61. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif cyfanswm cost o rhwng £60.353 miliwn a £79.452 miliwn dros bum mlynedd ar gyfer y gweithgaredd hwn,⁷³ ac yn nodi bod 51 o ddarparwyr gweithgareddau awyr agored wedi'u harolygu wrth sefydlu'r amrediad costau hwn.⁷⁴

62. Wrth wneud sylwadau ar yr ystod o gostau ar gyfer y canolfannau gweithgaredd a arolygwyd, dywedodd swyddog a oedd yn cefnogi'r Aelod sy'n Gyfrifol ei fod yn ddarlun cymhleth, gan ychwanegu:

*"The prices will reflect operating models. They will reflect the facilities. They will reflect the philosophy of the centre and the activities that are offered."*⁷⁵

63. Mae'r costau yn yr Asesiad Effaith yn seiliedig ar bob disgybl sy'n manteisio ar y cynnig.⁷⁶ Ailbwysleisiodd yr Aelod sy'n Gyfrifol hynny yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor. Dywedodd:

*"... what's in front of you from a finance point of view is the worst-case scenario, as it were; it's the uppermost limit."*⁷⁷

Costau cludiant

64. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif cyfanswm costau cludiant o rhwng £6.475 miliwn a £9.061 miliwn, dros bum mlynedd.⁷⁸

65. O dan y Bil, byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid i ysgolion at ddibenion cludiant i ganolfannau gweithgaredd, ac oddi yno.⁷⁹

⁷³ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 71](#)

⁷⁴ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 82](#)

⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 76

⁷⁶ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 77](#)

⁷⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 29

⁷⁸ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 71](#)

⁷⁹ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 87](#)

- 66.** Mae'r Asesiad Effaith yn amlinellu costau teithio rhwng £21 a £30 y disgybl ar gyfer pob disgybl ysgol gynradd ac uwchradd, a ddilyswyd gan ymatebion ysgolion i'r arolwg.⁸⁰
- 67.** Amcangyfrifir bod costau cludiant blynyddol ar gyfer disgyblion sy'n aros mewn canolfan breswyl am bedair noson, rhwng £151,179 a £227,261. I aros ddau o weithiau am ddwy noson, amcangyfrifir y bydd rhwng £1.058 miliwn ac £1.592 miliwn.⁸¹
- 68.** Ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol, tybir bod angen cerbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Er bod yr Asesiad Effaith yn dweud y bydd gan ambell ysgol eu rhai eu hunain, mae'n cymryd bod angen i bob ysgol logi'r cyfryw gerbyd.⁸² Mae nifer y cerbydau hygyrch o'r fath y flwyddyn, felly, yn amrywio rhwng 57 a 71. Gan gynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau tanwydd, byddai cyfanswm cost llogi cerbydau hygyrch rhwng £30,380 a £41,980.⁸³

Costau athrawon cyflenwi

- 69.** Mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif cyfanswm cost o £7.424 miliwn ar gyfer athrawon cyflenwi dros y cyfnod gweithredu o bum mlynedd.⁸⁴
- 70.** Ar gyfer ysgolion cynradd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud bod trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn awgrymu bod angen un athro cymwysedig a dau Gynorthwydd Addysgu gyda phob dosbarth ar ymweliad. Mae'n dweud – gan dybio bod athro a chynorthwydd addysgu penodedig ar gyfer pob dosbarth ysgol gynradd – y byddai'n ofynnol i'r ysgol gyflenwi ar gyfer un cynorthwydd addysgu fesul dosbarth.⁸⁵ Mae'r Asesiad Effaith yn defnyddio'r un modelu argostau⁸⁶ ag y defnyddiwyd wrth gostio Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) Llywodraeth Cymru.⁸⁷ Mae'n defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Enillion Aelwydydd (neu *ASHE*)⁸⁸ i amcangyfrif enillion cynorthwyddion addysgu. Mae'n cyfrif am gostau uwch sy'n ymwneud ag yswiriant cyflenwi o 15 y cant ychwanegol.

⁸⁰ Memorandwm Esboniadol, tudalen 88

⁸¹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 88

⁸² Memorandwm Esboniadol, tudalen 89

⁸³ Memorandwm Esboniadol, tudalen 90

⁸⁴ Memorandwm Esboniadol, tudalen 72

⁸⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalen 91

⁸⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalen 91

⁸⁷ Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 69

⁸⁸ Enillion ac oriau a weithiwyd, rhanbarth yn ôl galwedigaeth yn ôl SOC pedwar digid: *ASHE*. Tabl 15 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Amlinellir cyfanswm y costau blynyddol ar gyfer yswiriant yn y maes hwn fel bod rhwng £477,102 a £510,803.⁸⁹

71. Ar gyfer ysgolion uwchradd, mae'r Asesiad Effaith yn dweud y byddai angen cyflenwi ar gyfer athrawon wrth iddynt addysgu pynciau penodol, yn hytrach na chymorth penodol ar gyfer un dosbarth. Unwaith eto, mae'n defnyddio *ASHE*, 30 y cant ar gostau, a 15 y cant ychwanegol o athrawon cyflenwi. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau ar gyfer yswiriant yn y maes hwn a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith rhwng £517,139 a £550,782.⁹⁰

72. Wrth roi tystiolaeth ar y Bil, i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dywedodd yr Undeb arweinyddion ysgolion – neu'r *NAHT* – ei bod yn her enfawr ar hyn o bryd i gael athrawon cyflenwi i'r ysgol.⁹¹

73. Ar gyfer disgyblion ADY, mae'r Asesiad Effaith yn dweud:

“... byddai aelod dynodedig o staff yn dod gyda disgyblion ag ADY sy'n cael cymorth 1:1, ac na fyddai hynny felly'n arwain at gostau ychwanegol i'r ysgol.”⁹²

74. Fodd bynnag, mae'n ychwanegu na fyddai hynny, o bosibl, yn wir am bob disgybl ac efallai y bydd sefyllfaoedd lle mae angen athrawon cyflenwi.⁹³ Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif bod angen staff addysgu ychwanegol ar rhwng 386 a 460 o ddisgyblion ysgol gynradd bob blwyddyn, a rhwng 177 a 210 o ddisgyblion ysgol uwchradd.

75. Ar gyfer disgyblion oed ysgol gynradd, mae hynny'n gost o rhwng £136,064 a £176,354 y flwyddyn ac ar gyfer disgyblion oed ysgol uwchradd, rhwng £118,417 a £137,265.⁹⁴

76. Ar gyfer disgyblion ADY ag anawsterau dysgu difrifol, mae'r Asesiad Effaith yn gwneud amcangyfrif pellach, gyda chostau rhwng £139,691 a £179,131 yn flynyddol.⁹⁵

⁸⁹ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 92](#)

⁹⁰ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 92](#)

⁹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2024, paragraff 211

⁹² [Memorandwm Esboniadol, tudalen 93](#)

⁹³ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 93](#)

⁹⁴ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 95](#)

⁹⁵ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 95](#)

77. Pan ofynnwyd a oedd y costau ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol cymhleth a difrifol wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol:

*"So, just to be really clear, that calculation is in there for those learners, because the additional costs to ensure they have the appropriate support, and some very specialist centres, actually, for children with quite severe learning difficulties, understandably, need to charge more to ensure that that support is appropriate—that calculation is within the RIA. In addition to that, there are additional staffing costs to accompany pupils with severe additional learning needs as well. It's also included within the calculation here. So, I'm very confident that those calculations are robust, that all children, no matter the level of need—the calculations to support them appropriately are included within this."*⁹⁶

78. Ar fater costau cyflenwi athrawon, dywed papur tystiolaeth y Gweinidog:

*"Mae i'r Bil oblygiadau i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol hefyd. Nid yw'n glir a fydd yn ofynnol i athrawon oruchwylio'r gweithgareddau preswyl dros nos hyn ac, felly, fod yn bresennol pan fyddant yn cael eu cynnal. Ar hyn o bryd, nid oes rhwymedigaeth arnynt i wneud hynny ac, felly, ymddengys i swyddogion y bydd yn rhaid i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol gael ei diwygio, yn ôl pob tebyg."*⁹⁷

79. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad yw goblygiadau darpariaeth orfodol yn cael eu harchwilio'n llawn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol,⁹⁸ gan awgrymu y byddai athrawon ar hyn o bryd yn mynychu sesiynau preswyl yn wirfoddol, i raddau helaeth. Mewn perthynas â'r Bil yn creu gofyniad gorfodol, ychwanegodd y Gweinidog:

*"I expect you would need to make changes to the relevant staff contracts, which could have quite a considerable additional expense."*⁹⁹

⁹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 128

⁹⁷ [Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 10](#)

⁹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 83

⁹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 83

80. Wrth wneud sylwadau ar y goblygiadau posibl ar gyfer y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol:

"It's not something that I've explored within this. If the Minister thinks that that's necessary, then I guess that's a point for him to consider."¹⁰⁰

Olrhain cyfranogiad disgyblion

81. Yn ôl yr Asesiad Effaith, bydd angen olrhain disgyblion i sicrhau eu bod wedi cael y cyfle i fod yn rhan o brofiad gweithgaredd awyr agored preswyl.¹⁰¹ Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, cyfeiriodd yr Aelod sy'n Gyfrifol at y system *EVOLVE* y mae 21 o'r 22 awdurdod lleol yn ei defnyddio ar hyn o bryd i gofnodi data ar ddisgyblion.¹⁰² O ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dywedodd:

"... they assured us it would just be the inclusion of one additional field within a system, and they believe, as described in the EM, the cost of that is negligible."¹⁰³

82. O ran olrhain, awgrymodd y Gweinidog y byddai goblygiadau cost mewn perthynas â llwyth gwaith staff. Dywedodd:

"There would be administrative burdens, wouldn't there, on schools and on local authorities of that level of monitoring, and I don't think you could say they would necessarily be negligible."¹⁰⁴

Adolygiad ôl-weithredu

83. Nid yw'r Asesiad Effaith yn cynnwys adolygiad ôl-weithredu.

84. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn awgrymu – gan y byddai darpariaethau'r Bil yn gwneud addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm – "mae'n debyg y bydd angen i Estyn ei harolygu".¹⁰⁵ Mae'n ychwanegu fel a ganlyn:

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 140

¹⁰¹ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 96](#)

¹⁰² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 147

¹⁰³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 147

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 91

¹⁰⁵ [Memorandwm Esboniadol, tudalen 93](#)

“Nid yw'n glir sut y bydd hynny'n gweithio o gofio ei bod yn cael ei darparu oddi ar y safle gan drydydd partïon ac, yn aml, fusnesau preifat. Mae gan Estyn bwerau i fynd i mewn i leoliadau, eu harolygu a mynd â dogfennau i ffwrdd mewn perthynas ag arolygiadau o ysgolion ond cyfyngedig yw ei bwerau i wneud hynny pan fydd rhan o addysg disgybl yn cael ei darparu oddi ar safle'r ysgol. It would not extend to children attending ROE below the age of 15. No provision is made in respect of that in the Bill.”¹⁰⁶

85. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, dywedodd Estyn nad yw'n cael arsylwi'n uniongyrchol ar yr hyn sy'n digwydd, na llunio barn ar ansawdd digwyddiadau preswyl”.¹⁰⁷ Ychwanegodd fel a ganlyn:

“And the only way that we could look at those in any kind of detail or depth would be to carry out thematic work, and look at that as a particular piece of focused activity.”¹⁰⁸

86. Pan holwyd a fyddai cost i Estyn o gynnal arolygiadau o ganolfannau gweithgaredd, cyfeiriodd yr Aelod sy'n Gyfrifol at dystiolaeth a roddodd Estyn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.¹⁰⁹ Dywedodd:

“No, because, as Estyn said themselves, they don't expect it to be something for them to have to do. But if a Minister at any point, or somebody, wanted to do that, it's their prerogative. I can't predict what a Minister will want to ask for as a thematic review—they can ask for a thematic review on anything they wanted to. So, I think Estyn's response is the one to listen to because they're the experts in this area.”¹¹⁰

87. Fodd bynnag, cydnabu'r Aelod sy'n Gyfrifol y byddai angen sicrwydd i sicrhau effeithiolrwydd y Bil, a nododd fel a ganlyn:

“...that's the role of school governing bodies, ultimately, working with local authorities.”¹¹¹

¹⁰⁶ [Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 10](#)

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2024, paragraff 170

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2024, paragraff 171

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2024, paragraff 170

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 146

¹¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Chwefror 2024, paragraff 144

Barn y Pwyllgor

88. Mae'r Pwyllgor yn deall y dull a fabwysiadwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol wrth amcangyfrif costau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar sail 100% disgyblion yn manteisio ar y cynnig addysg awyr agored, a bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, felly, yn cynrychioli pen uchaf y costau posibl. Fodd bynnag, heb fodelu pellach o'r hyn y gallai'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig fod, ni all y Pwyllgor ond ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac o ganlyniad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu modelu pellach o'r newidyn posibl hwn.

89. Mewn perthynas â'r mathau o weithgareddau a gynigir gan y canolfannau gweithgareddau awyr agored a arolygwyd, dywedodd swyddog a oedd yn cefnogi'r Aelod sy'n Gyfrifol ei fod yn ddarlun cymhleth, oherwydd yr amrywiaeth o ganolfannau gweithgareddau awyr agored a oedd ar waith. Gan fod y Bil yn gosod rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru i ariannu'r profiad addysg awyr agored breswyl yn llawn, mae'r Pwyllgor yn pryderu sut y gallai hyn effeithio ar gostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r goblygiadau ar werth am arian. O ystyried y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ariannu'r gweithgareddau, efallai y bydd gan ysgolion lai o gymhellant i geisio gwerth am arian ar gyfer y mathau hyn o weithgareddau.

90. Mewn perthynas â'r costau amcangyfrifedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol ei fod yn hyderus iawn bod y cyfrifiadau hynny'n rhai cadarn. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y maes hwn. Fodd bynnag, oherwydd gofynion penodol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd pellach bod y costau a gyfrifwyd yn y categorïau cost a ystyriwyd gan yr Asesiad Effaith – sef mynd i ganolfannau gweithgareddau awyr agored, cludiant ac athrawon cyflenwi – yn gywir ac yn gadarn.

91. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer costio athrawon cyflenwi.¹¹² Fodd bynnag, o ystyried bod rhanddeiliaid – mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – wedi nodi'r heriau o ran dod o hyd i athrawon cyflenwi, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai costau athrawon cyflenwi fod yn amcangyfrif rhy isel, ac mae'n galw am ddadansoddiad pellach o'r maes hwn ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith diwygiedig.

¹¹² [Bil Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\). Memorandwm Esboniadol, tudalen 69](#)

92. Mae'n destun pryder i'r Pwyllgor – gan fod y Bil yn creu darpariaeth orfodol mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl – y gallai hynny fod â goblygiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, gan y gallai fod yn ofynnol i athrawon fod yn bresennol, yn hytrach na mynd o'u gwirfodd, sef yr hyn a ystyrir yn gyffredin. Er bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn teimlo mai mater i'r Gweinidog ei archwilio oedd y mater posibl hwn, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Aelod sy'n Gyfrifol am Fil gymryd y prif gyfrifoldeb am amcangyfrif costau fel hyn. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli y gallai fod yn anodd amcangyfrif y maes hwn o gostau yn fanwl gywir. Fodd bynnag, o ystyried bod y Gweinidog wedi awgrymu y gallai hyn fod yn “draul ychwanegol sylweddol”, mae'r Pwyllgor yn disgwyl eglurhad pellach yn y maes hwn.

93. Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau gwahanol gan yr Aelod sy'n Gyfrifol a'r Gweinidog ar y costau posibl ar gyfer olrhain presenoldeb disgyblion mewn profiad addysg awyr agored breswyl. Er bod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai bychan iawn yw'r costau olrhain, mae'r Gweinidog o'r farn y byddai baich gweinyddol ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai cost yn gysylltiedig ag unrhyw ofyniad monitro parhaus, hyd yn oed os yw hwn yn gost cyfle.

94. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw adolygiad ôl-weithredu wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Mae cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn yn arfer da, ac mae'n helpu i gynnig sicrwydd ynghylch sut y caiff y gwaith o gyflawni amcanion y ddeddfwriaeth ei fonitro. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i adolygiad ôl-weithredu gael ei gynnwys yn yr holl wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r Biliau.¹¹³ Mae'r Pwyllgor wedi clywed safbwyntiau gwahanol ar rôl bosibl Estyn o ran arolygu canolfannau addysg awyr agored preswyl ac mae angen eglurhad pellach er mwyn sicrhau, pe bai angen, y cyflawnir monitro effeithiol.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y modd y bydd canllawiau ynghylch y Bil yn sicrhau bod gwerth am arian yn ystyriaeth allweddol, pan fydd ysgolion yn gwneud dewisiadau am addysg awyr agored breswyl.

Argymhelliad 6. O ystyried anghenion a gofynion amrywiol disgyblion, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn darparu dadansoddiad pellach o'r costau amcangyfrifedig ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

¹¹³ [Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\) 2022](#)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn darparu dadansoddiad pellach o gostau athrawon llanw, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith ar y goblygiadau o ran costau mewn perthynas â newidiadau posibl i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, o ganlyniad i basio'r Bil.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig ag olrhain a monitro presenoldeb disgyblion mewn profiad addysg awyr agored breswyl. mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn rhoi eglurhad ar unrhyw ofynion arolygu posibl sy'n gysylltiedig â'r Bil – gan gynnwys unrhyw rôl i Estyn – a rhagor o fanylion am y modd y caiff y Bil ei fonitro'n effeithiol.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnwys adolygiad ôl-weithredu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ac y dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys gwybodaeth ynghylch y modd y bydd costau a buddion cyffredinol y Bil yn cael eu monitro.